# Llenyddol



**Gwarchod:** 'trefn greadigol geiriau'.

**Enghreifftiau:** Llyfrau, cyfnodolion, cerddi, geiriau caneuon, llythyrau, dyddiaduron, dogfennau cyfreithiol, hanes llafar, negeseuon e-bost, blogiau, meddalwedd.

**Hyd:** Cyhoeddedig – fel rheol 70 mlynedd ar ôl marw'r awdur.

Anghyhoeddedig - 70 mlynedd ar ôl marw'r awdur, ond gellir cael cyfnodau hwy na hynny.

# Artistig



**Gwarchod:** gweithiau creadigol 'gweledol'.

**Enghreifftiau:** Darluniau, dyluniadau, brasluniau, cerfluniau, ffotograffau, mapiau, logos, siartiau, graffiau.

**Hyd:** Cyhoeddedig – fel rheol 70 mlynedd ar ôl marw'r awdur.

Anghyhoeddedig - 70 mlynedd ar ôl marw'r awdur, ond gellir cael cyfnodau hwy na hynny. Ffotograffau o'r 20fed ganrif - gwahanol hyd.

# Cerddorol



**Gwarchod:** trefn greadigol nodau cerddorol, neu 'gyfuniad o seiniau i wrando arnynt'.

**Enghreifftiau:** caneuon pop, symffonïau, rhigymau, sgoriau ffilm, trefniannau o ganeuon gwerin.

**Hyd:** Cyhoeddedig – fel rheol 70 mlynedd ar ôl marw'r awdur.

Anghyhoeddedig – - naill ai 70 mlynedd ar ôl marw'r awdur neu 31 Rhagfyr 2039 (pa un bynnag yw'r diweddaraf)

**Sylwer:** Mae'r hawlfraint mewn darn o gerddoriaeth ar wahân i'r hawlfraint mewn recordiad sain o'r gerddoriaeth honno.

# Dramatig



**Gwarchod:** dialog a chyfarwyddiadau llwyfan mewn gwaith a berfformir, neu ddawns neu feim.

**Enghreifftiau:** Dramâu, sgriptiau ffilm, ballet, rifiwiau.

**Hyd:** Cyhoeddedig/perfformiwyd – fel rheol 70 mlynedd ar ôl marw'r awdur.

Anghyhoeddedig/heb ei berfformio -naill ai 70 mlynedd ar ôl marw'r awdur neu 31 Rhagfyr 2039 (pa un bynnag yw'r diweddaraf).

G2

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# G

# Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

G1

COPYRIGHT
THE CARD GAME

G

Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

G4

COPYRIGHT
THE CARD GAME

G

Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

G3

COPYRIGHT
THE CARD GAME

G

Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

# Darlledu




**Gwarchod:** Darlledu deunydd clywedol a chlyweledol. Mae hwn yn hawl ar wahân i'r hawlfraint yn y recordiadau ffilm neu sain sy'n cael eu darlledu.

**Enghreifftiau:** Unrhyw ddarllediad radio neu deledu a wneir drwy ddulliau electronig, ond nid darllediad ar y rhyngrwyd.

**Hyd:** 50 mlynedd o'r flwyddyn pan gafodd ei ddarlledu gyntaf.

# Recordiad Sain



**Gwarchod:** recordio sain mewn unrhyw 'ffurf sefydlog'.

**Enghreifftiau:** Recordiadau cerddorol, traciau sain ffilm a theledu, recordiadau hanes llafar, recordiadau o areithiau cyhoeddus.

**Hyd:** 70 mlynedd o'r flwyddyn y cafodd ei ryddhau, neu 50 mlynedd o'r flwyddyn y cafodd ei greu (os heb ei ryddhau).

**Sylwer:** Mae llawer o recordiadau sain yn cynnwys gweithiau hawlfraint cerddorol, dramatig neu lenyddol sylfaenol, ond ar wahân.

# Ffilm



**Gwarchod:** Recordiadau clyweledol.

**Enghreifftiau:** Rhaglenni teledu, ffilmiau, fideos cartref, ffilmiau animeiddio.

**Hyd:** 70 mlynedd ar ôl marw'r olaf o'r canlynol:

- y cyfarwyddwr,
- awdur y sgript ffilm,
- awdur y dialog, neu
- cyfansoddwr cerddoriaeth a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer y ffilm.

# Teipograffeg

Æ

**Gwarchod:** cynllun teipograffeg argraffiad cyhoeddedig.

**Enghreifftiau:** Ymddangosiad teiposod llyfrau, papurau newydd a chyfnodolion cyhoeddedig.

**Hyd:** 25 mlynedd ers cyhoeddi.

G6

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# G

# Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

G5

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# G

# Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

G8

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# G

# Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

G7

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# G

# Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

## Parth Cyhoeddus

Pan mae hawlfraint dros waith yn dod i ben, neu wedi cael ei ildio gan berchen yr hawlfraint, mae'n mynd i'r 'parth cyhoeddus' a gellir ei ddefnyddio heb ganiatâd.

**Gwarchod:** nid oes gan y gwaith unrhyw warchodaeth hawlfraint.

**Enghreifftiau:** Unrhyw waith cyhoeddedig, creadigol lle mae'r awdur wedi marw dros 70 mlynedd yn ôl. Unrhyw waith lle mae'r awdur wedi ildio eu hawlfraint gyda thrwydded Creative Commons 'Zero' (CC0).

## Cronfa ddata

**Gwarchod:** Gall cronfeydd data fod yn weithiau llenyddol a hawlfraint arnynt, neu wedi eu gwarchod gan hawliau cronfa ddata penodol (a elwir yn *sui generis*).

**Enghreifftiau:** Cyfeiriaduron, cronfeydd data masnachol, setiau data ymchwil gwyddonol.

**Hyd:** 15 mlynedd o'r flwyddyn y cafodd y gwaith ei greu neu'r tro diwethaf i'r gronfa ddata gael ei diweddaru.

## Hawliau Moesol

**Gwarchod:** hawliau'r awdur dros waith fel ei 'blentyn ysbrydol'. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i gael ei enwi/henwi fel yr awdur ac i'r gwaith beidio â chael ei drin mewn ffordd ddifrïol.

**Enghreifftiau:** Yr arddeliad yn nhu blaen llyfr - "mae xxxx yn arddel ei hawl i gael ei gydnabod fel awdur y gwaith hwn". Fodd bynnag, gall yr arddel hawl hwn gael ei ildio gan yr awdur.

**Hyd:** Yn y Deyrnas Unedig mae hawliau moesol yr un fath â hyd y gwaith hawlfraint, ac eithrio'r hawl o briodoli ffug sy'n para am 20 mlynedd ar ôl marwolaeth yr awdur.

## Perfformiad

**Gwarchod:** perfformiadau cerddorol neu ddramatig sefydlog mewn ffilm neu recordiad sain.

**Enghreifftiau:** Actio, perfformiad cerddorol, darlith, datganiad neu gyflwyniad cyhoeddus.

**Hyd:** 70 mlynedd o'r flwyddyn y cafodd ei ryddhau, neu 50 mlynedd o'r flwyddyn y cafodd ei berfformio (os heb ei ryddhau).

**Sylwer:** Er bod hyn yn agored i drafodaeth, mae llawer o sefydliadau addysgol yn rhagdybio ei bod yn debygol fod recordiadau darlithoedd i'w hystyried fel perfformiadau.

G10

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# G

# Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

G9

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# G

# Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

G12

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# G

# Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

G11

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# G

# Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

## Ddim yn gymwys



**Gwarchod:** Nid oes gwarchodaeth hawlfraint dros rywbeth nad yw'n fynegiant 'sefydlog' o greadigrwydd dynol.

**Enghreifftiau:** Syniad nad yw wedi'i ysgrifennu, rhywbeth sy'n digwydd yn naturiol, ffaith wybyddus i bawb, cysyniad haniaethol (e.e. cariad).

**Hyd:** Nid oes hawlfraint, felly nid oes hyd hawlfraint.

## Copïo



**Diffiniad:** Atgynhyrchu rhan sylweddol o waith â hawlfraint arno mewn unrhyw ffurf, yn cynnwys dull electronig.

**Enghreifftiau:** Gwneud llungopi, lawrlwytho gwaith â hawlfraint arno, copïo i ddyfais storio ddigidol, gwneud ffacsimili wedi'i dynnu â llaw, atgynhyrchu recordiadau o waith cerddorol, cymryd ffotograffau o rai mathau o waith â hawlfraint arno (e.e. ffotograff neu ddarlun).

## Dosbarthu copïau i'r cyhoedd




**Diffiniad:** Cylchredeg copïau o nwyddau'n cynnwys gweithiau â hawlfraint arnynt. Mae hyn yn gyfystyr â 'chyhoeddi' i raddau helaeth.

**Enghreifftiau:** Cyhoeddi llyfr neu gyfnodolyn, dosbarthu recordiadau sain, gwerthu copïau o ffilm.

**Nid yw'n cynnwys** : Gwneud copïau digidol o weithiau sydd ar gael ar-lein - gweler cyfathrebu â'r cyhoedd.

## Rhentu neu Fenthyca



**Diffiniad:** Gwneud copïau o'r rhan fwyaf o fathau o weithiau hawlfraint ar gael dros dro i'r cyhoedd naill ai i fantais economaidd neu an-economaidd.

**Enghreifftiau:** Rhentu gemau cyfrifiadurol, benthyca llyfrau o lyfrgell.

**Nid yw'n cynnwys:** Darparu i ddiben perfformio, chwarae neu ddangos yn gyhoeddus.

D1

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# D

## Defnydd

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

G13

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# G

## Gweithiau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

D3

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# D

## Defnydd

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

D2

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# D

## Defnydd

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

## Perfformiad Cyhoeddus

**Diffiniad:** Perfformio neu ddangos rhai mathau o waith yn gyhoeddus.

**Enghreifftiau:** Rhoi darlithoedd, anerchiadau, areithiau neu bregethau, perfformiadau cerddorol, perfformiadau dramatig, chwarae recordiadau sain a ffilmiau.

**Sylwer:** Nid yw arddangos gweithiau artistig, llenyddol neu gerddorol (e.e. arddangos llyfr neu sgôr gerddorol mewn amgueddfa) yn berfformiad cyhoeddus.

## Cyfathrebu â'r cyhoedd

**Diffiniad:** Cyfathrebu gweithiau hawlfraint i'r cyhoedd drwy drosglwyddiad electronig. Mae'n golygu bod trosglwyddiadau darlledu ac ar-lein yn dod dan gyfraith hawlfraint.

**Enghreifftiau:** Defnyddio gweithiau hawlfraint mewn darllediadau, gwefannau, podlediadau, gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol, blogiau, amgylcheddau dysgu rhithwir (VLEs).

**Rhybudd:** Nid oes raid i'r diffiniad o 'gyhoedd' fod y cyhoedd yn gyffredinol o anghenraid. e.e. gall darparu deunydd ar fewnrwyd gaeedig ddal i gael ei ystyried yn gyfathrebu â'r 'cyhoedd'.

## Addasu

**Diffiniad:** Addasu gwaith hawlfraint sy'n bodoli eisoes a'i gofnodi yn ysgrifenedig neu mewn fformat 'sefydlog' arall.

**Enghreifftiau:** Cyfieithu gwaith llenyddol, newid ffotograff, cymysgu recordiad sain neu ffilm, trosi meddalwedd cyfrifiadur o un iaith i un arall.

## Trwydded CLA i Addysg Uwch

Copyright Licensing Agency

**Defnydd a ganiateir:** Darparu copïau lluosog o rannau o lyfrau cyhoeddedig i ddibenion addysgol.

**Repertoire:** Y mwyafrif o lyfrau, cyfnodolion a chylchgronau cyhoeddedig, cyhoeddiadau digidol, trafodion cynadleddau a chyfreithiol. Gweithiau artistig sydd o fewn y rhain.

**Eithriadau:** Teitlau a eithriwyd yn benodol, cerddoriaeth ddalen, mapiau a siartiau, papurau newydd, llyfrau gwaith.

*Gweler cla.co.uk/higher-education-licence am fanylion

U5

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# D

# Defnydd

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

U4

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# D

# Defnydd

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

L1

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# T

# Trwyddedau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

U6

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# D

# Defnydd

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

# NLA Media Access*

Newspaper Licensing

**Defnydd a ganiateir:** Copïo erthyglau papurau newydd i ddefnyddwyr awdurdodedig mewn ffurf bapur neu ddigidol.

**Repertoire:** Erthyglau a gyhoeddwyd gan gyhoeddwyr papurau newydd sy'n cymryd rhan.

**Eithriadau:** Cyfnodolion a chylchgronau. Nid yw rhai papurau newydd yn cymryd rhan yn y cynllun NLA, e.e. Financial Times.

*Mae NLA yn sefyll dros Newspaper Licensing Agency— gweler

# ERA*

Educational Recording Agency

**Defnydd a ganiateir:** Defnydd addysgol o recordiadau a ddarlledir yn y Deyrnas Unedig.


**Repertoire:** Recordiadau o ddarllediadau rhydd o gyfyngiadau a deunydd hawlfraint ynddynt.

**Eithriadau:** Cynnwys nad yw'n rhydd o gyfyngiadau. Defnyddwyr sydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Sylwer: Mae'r drwydded ERA yn cynnwys defnyddio'r gwasanaethau BoB a Planet eStream.

* Educational Recording Agency— gweler [era.org.uk](era.org.uk)

# Filmbank / MPLC*



**Defnydd a ganiateir:** Perfformiadau cyhoeddus ffilmiau nad ydynt yn dod dan eithriadau addysgol.

**Repertoire:** Rhai prif ffilmiau, ond nid bob un ohonynt. Nid yw'r mwyafrif o ffilmiau'n dod dan gynlluniau trwydded cyffredinol.

**Sylwer:** Nid oes angen trwydded fel rheol i ddangos ffilmiau i ddibenion addysgol. Edrychwch ar yr eithriadau i weld a ganiateir defnydd ai peidio.

*Motion Picture Licensing Company

# E-Adnoddau Llyfrgell



**Defnydd a ganiateir:** Dibynnu ar gytundeb y drwydded - fel rheol yn caniatáu mynediad gan ddefnyddwyr awdurdodedig.

**Repertoire:** Penodol i gytundeb y drwydded.

**Enghreifftiau:** Trwyddedau Jisc Collections, NESLi2, EBSCO a Proquest. Cytundebau uniongyrchol â chyhoeddwyr.

**Eithriadau:** Er bod trwyddedau e-adnoddau yn cyfyngu rhai mathau o ddefnydd, fe all fod eithriadau sy'n eu caniatáu. Gwiriwch nad oes unrhyw delerau contract yn dadwneud hyn.

L3

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# T

# Trwyddedau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

L2

COPYRIGHT
THE CARD GAME

T

Trwyddedau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

L5

COPYRIGHT
THE CARD GAME

T

Trwyddedau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

L4

COPYRIGHT
THE CARD GAME

T

Trwyddedau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

# Creative Commons*

**Defnydd a ganiateir:** Caniatáu copïo a dosbarthu cynnwys am ddim ac, yn dibynnu ar natur y drwydded, gall alluogi defnyddwyr i addasu neu fasnacheiddio'r gwaith.

**Repertoire:** Erbyn 2016 roedd 1.2 biliwn o weithiau gyda thrwydded Creative Commons.

**Rhybudd:** Gall unrhyw un wneud cais am drwydded CC i waith - gwiriwch eich ffynonellau.

*creativecommons.org

# Caniatâd 'Pwrpasol'




**Defnydd a ganiateir:** Weithiau mae'n bosibl trafod trefniant pwrpasol yn uniongyrchol gyda deiliad yr hawliau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn projectau digideiddio diwylliannol neu addysgol.

**Repertoire:** Mae angen i'r cynnwys gael ei bennu adeg trafod y caniatâd.

**Rhybudd:** Mae trafod hawliau i gael caniatâd o'r fath yn aml yn cymryd amser ac yn gostus. Gofalwch bod hyn wedi'i gynnwys yn unrhyw broject rydych yn ei wneud.

# Telerau ac Amodau




**Defnydd a ganiateir:** Mae hyn yn dibynnu ar y wefan.

**Repertoire:** Mae hyn yn dibynnu ar y wefan a'i thelerau ac amodau - mae'n annhebygol y bydd un perchen ar holl gynnwys safle.

**Rhybudd:** Mae'n annoeth copïo neu ailddefnyddio deunydd a gymerwyd o wefan ar y sail bod y telerau ac amodau yn aneglur neu ddim yn bodoli. Cyfrifoldeb y defnyddiwr yw clirio hawlfraint ac asesu risg.

# Trwydded Gweithiau Amddifad




**Defnydd a ganiateir:** Ystod o ddefnyddiau masnachol ac anfasnachol am 7 mlynedd (Cynllun Llywodraeth y DU)

**Repertoire:** Mae holl weithiau amddifad yn destun chwiliad trwyadl.

**Rhybudd:** Gyda'r drwydded gweithiau amddifad mae angen gwneud 'chwiliad trwyadl' fesul gwaith ac felly nid yw'n addas ar gyfer projectau digideiddio ar raddfa fawr.

L7

COPYRIGHT THE CARD GAME

# T

# Trwyddedau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

L6

COPYRIGHT THE CARD GAME

# T

Trwyddedau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

L9

COPYRIGHT THE CARD GAME

# T

Trwyddedau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

L8

COPYRIGHT THE CARD GAME

# T

Trwyddedau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

# Eich hawlfraint



**Defnydd a ganiateir:** Fel perchen hawlfraint y gwaith, caniateir i chi wneud unrhyw ddefnydd ohono fel y gwelwch orau.

**Rhybudd:** Dylech wirio a oes gan unrhyw un arall hawl i hawlfraint dros y gwaith neu rannau ohono. Os ydych wedi creu'r gwaith fel aelod staff, yna eich cyflogwr fydd yn berchen y gwaith. Os ydych wedi defnyddio deunydd a gafodd ei greu gan eraill (e.e. siart neu ddelwedd) mae'n debygol y bydd arnoch angen caniatâd gan y perchennog. Cofiwch drafod hawlfraint gydag unrhyw gydweithredwyr yn fuan.

# Gwnaethoch fel aelod staff



Dan gyfraith y DU, cyflogwyr sy'n berchen hawlfraint unrhyw beth y gwnaethoch ei greu fel rhan o'ch swydd.

**Defnydd a ganiateir:** Beth bynnag y cytunwyd arno fel rhan o'ch trefniant cyflogaeth neu bartneriaeth.

**Enghraifft:** Deunyddiau hyfforddi rydych yn eu creu fel rhan o'ch swydd ddyddiol.

**Rhybudd:** Mae anghydfodau'n digwydd pan fo rhai'n ceisio defnyddio deunydd hawlfraint mewn ffyrdd na chytunwyd arnynt gyda chyflogwyr/partneriaid.

# S.29 Ymchwil neu Astudio



**Diffiniad:** Caniatáu i unigolion wneud un copi o rannau cyfyngedig o weithiau hawlfraint ar gyfer ymchwil anfasnachol neu astudio preifat. <u>Nid oes unrhyw delerau contract yn dadwneud hyn.</u>

**Mathau o waith:** Holl weithiau hawlfraint, yn cynnwys recordiadau sain a ffilmiau.

**Enghreifftiau:** Mae ymchwilydd yn gwneud un copi o bennod o lyfr yn ei lyfrgell sefydliadol ar gyfer ei waith preifat ei hun.

# S.29A Cloddio Testun a Data



**Diffiniad:** Caniatáu dadansoddiad cyfrifiannol o gynnwys digidol a gafwyd yn gyfreithlon i ddibenion ymchwil anfasnachol. <u>Nid oes unrhyw delerau contract yn dadwneud hyn.</u>

**Mathau o waith:** Holl weithiau hawlfraint, yn cynnwys recordiadau sain a ffilmiau.

**Enghreifftiau:** Mae ymchwilydd yn rhedeg algorithmau yn erbyn cronfeydd data y tanysgrifiwyd yn gyfreithlon iddynt er mwyn penderfynu'r berthynas rhwng gennyn arbennig a math arbennig o ganser.

L11

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# T

# Trwyddedau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

L10

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# T

# Trwyddedau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

E2

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

E1

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

## S.30 Dyfyniad “ ”

**Diffiniad:** Caniatáu 'defnydd teg' o ddyfyniadau i unrhyw ddiben, yn cynnwys 'beirniadaeth ac adolygu'. Nid oes unrhyw delerau contract yn dadwneud hyn..

**Mathau o waith:** Unrhyw waith hawlfraint sydd ar gael yn gyhoeddus.

**Enghreifftiau:** Mae myfyriwr yn dyfynnu o weithiau cyhoeddedig dramodydd o'r 20fed ganrif y mae'n ysgrifennu traethawd arno.

## S.30A Dychanu/ Parodi /Pastiche

**Diffiniad:** Caniatáu 'defnydd teg' o weithiau presennol mewn ysbryd o ddychan, hiwmor neu sylwebaeth gymdeithasol. Nid oes unrhyw delerau contract yn dadwneud hyn.

**Mathau o waith:** Unrhyw waith hawlfraint.

**Enghreifftiau:** Mae gwneuthurwr ffilmiau'n creu fideo gan ddefnyddio rhannau o areithiau gwleidyddol i ddibenion hiwmor a dychan.

**Sylwer:** Mae'n bosib defnyddio'r parodi i ddychanu'r gwaith ei hun, yn ogystal â defnyddio'r gwaith i ddychanu rhywbeth arall.

## S.31 Copïo Hygyrch

**Diffiniad:** Caniatáu i sefydliadau (e.e. prifysgolion) wneud a chadw copïau hygyrch o weithiau hawlfraint at ddefnydd personol rhai gydag unrhyw fath o anabledd corfforol neu feddyliol. Nid oes unrhyw delerau contract yn dadwneud hyn.

**Mathau o waith:** Unrhyw waith nad yw ar gael yn fasnachol mewn fformat hygyrch addas.

**Enghreifftiau:** Sganio gwerslyfrau ar gyfer myfyrwyr a chadw'r sganiau mewn cadwrfa 'gaeedig' i'w defnyddio yn y dyfodol. Prifysgol yn sganio gwerslyfrau i fyfyriwr â nam ar ei olwg ac yna'u cadw mewn cadwrfa 'gaeedig' i'w defnyddio yn y dyfodol.

## S.32 Darluniau ar gyfer hyforddiant

**Diffiniad:** Caniatáu defnydd cyfyngedig ac anfasnachol o ddeunydd hawlfraint i ddibenion addysgu. Nid oes unrhyw delerau contract yn dadwneud hyn.

**Mathau o waith:** Holl weithiau hawlfraint.

**Enghreifftiau:** Cynnwys delweddau â hawlfraint arnynt mewn sleidiau PowerPoint addysgol. Mynediad 'teg' at y rhain drwy Rithamgylchedd Dysgu (VLE).

E4

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

E3

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

E6

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

E5

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

## S.35 Recordio Darllediadau

**Diffiniad:** Caniatáu recordio darllediadau oddi ar yr awyr gan sefydliadau addysgol, neu ar eu rhan, i ddibenion anfasnachol.

Mae hyn ond yn berthnasol lle nad oes cynllun trwyddedu (i.e. ERA) ar gael.

**Mathau o waith:** Darllediadau oddi ar yr awyr a deunydd hawlfraint ynddynt.

**Enghreifftiau:** Recordiadau a wnaed ar beiriannau recordio fideo ac a gedwir i ddibenion addysgol.

## S.36 Copïo Darnau Cyhoeddedig i Ddibenion Addysgol

**Diffiniad:** Caniatáu copïo a defnyddio copïau lluosog o ddarnau o weithiau hawlfraint cyhoeddedig.

Mae hyn ond yn berthnasol lle nad oes cynllun trwyddedu (i.e. CLA) ar gael.

**Mathau o waith:** Hyd at 5% o waith (ac eithrio darllediad neu waith artistig unigol) i bob sefydliad o fewn cyfnod o 12 mis.

**Enghreifftiau:** Defnyddio gweithiau nad ydynt mewn repertoire CLA mewn VLE.

**Rhybudd**: Mae'n anodd iawn dilyn hynt cydymffurfio sefydliadol â'r eithriad hwn.

## S.40B Terfynellau Penodedig

**Diffiniad:** Caniatáu i lyfrgelloedd, sefydliadau addysgol, amgueddfeydd ac archifau ddigideiddio eitemau casgliad a'u darparu ar safle ar gyfer ymchwil drwy 'derfynellau penodedig'.

**Mathau o waith:** Unrhyw waith hawlfraint, yn amodol ar delerau prynu neu drwyddedu.

**Enghreifftiau:** Casgliad o ohebiaeth fregus yn cael ei ddarparu'n ddigidol mewn llyfrgell.

## S.41 Copïo rhwng Llyfrgelloedd

**Diffiniad:** Caniatáu cyflenwi copïau o unrhyw waith cyhoeddedig cyfan, neu ran ohono, o un llyfrgell i un arall. Nid oes unrhyw delerau contract yn dadwneud hyn.

**Mathau o waith:** Naill ai:

a) erthyglau unigol o gyfnodolion, neu

b) y cyfan neu ran o gyhoeddiad arall, ar yr amod na all y llyfrgellydd ddod o hyd i ddeiliaid yr hawliau.

**Enghreifftiau:** Llyfrgell yn gwneud cais am gopïau ychwanegol o lyfrgelloedd eraill yn ychwanegu at eu casgliadau.

E8

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

E7

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

E10

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

E9

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

# S.42 Diogelu gan Lyfrgelloedd

**Diffiniad:** Caniatáu i lyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd wneud copïau o eitemau yn eu casgliad parhaol. <u>Nid oes unrhyw delerau contract yn dadwneud hyn.</u>.

**Mathau o waith:** Pob math o waith hawlfraint cyn belled nad ydynt yn hygyrch i'r cyhoedd neu ar gael ar fenthyciad i ddefnyddwyr llyfrgelloedd/ archifau.

**Enghreifftiau:** Gall hanes llafar a recordiwyd ar dâp rîl i rîl gael ei ddigideiddio a chadw copïau ohono mewn gwahanol leoliadau.

# S.42A Copïo gan Lyfrgelloedd i Ddefnyddwyr

**Diffiniad:** Caniatáu i lyfrgelloedd wneud un copi o rannau rhesymol o weithiau hawlfraint ar gyfer eu defnyddwyr i ddibenion ymchwil anfasnachol ac astudio preifat. Rhaid i ddefnyddwyr wneud datganiad ysgrifenedig. <u>Nid oes unrhyw delerau contract yn dadwneud hyn.</u>

**Mathau o waith:** Holl weithiau hawlfraint, ond mae'n anodd barnu beth yw cyfran 'resymol' yn achos deunydd anhestunol.

**Enghreifftiau:** Cyflenwi dogfennau rhwng llyfrgelloedd.

# S.43 Copïo Gweithiau Anghyhoeddedig



**Diffiniad:** Caniatáu i lyfrgellwyr wneud un copi o waith cyhoeddedig cyfan, neu ran ohono, i'w defnyddwyr ar gyfer ymchwil anfasnachol ac astudio preifat.

**Mathau o waith:** Unrhyw waith cyhyd â na chafodd ei gyhoeddi cyn ei roi yn y llyfrgell ac nad yw deiliad yr hawliau wedi gwahardd ei gopïo. Rhaid i ddefnyddwyr wneud datganiad ysgrifenedig.

**Enghreifftiau:** Mae llyfrgellydd yn darparu copïau o ddeunydd archifol i ymchwilydd.

# S.44B Gweithi-au Amddifad

**Diffiniad:** Caniatáu defnydd anfasnachol, ar-lein o weithiau amddifad gan sefydliadau diwylliannol ac addysgol, yn amodol ar chwiliad trwyadl. Rhaid i chwiliadau gael eu cofnodi ar gronfa ddata gweithiau amddifad Swyddfa Eiddo Deallusol yr Undeb Ewropeaidd.

**Mathau o waith:** Holl weithiau testunol a chlyweledol, ond nid gweithiau artistig, oni bai eu bod wedi eu hymgorffori mewn gwaith testunol neu glyweledol mwy.

**Enghreifftiau:** Amgueddfa yn darparu nifer fechan o ffilmiau dogfen archifol ar ei gwefan.

E12

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

E11

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

E14

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

E13

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

# Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

# S.34 Perfformi-ad addysgol



**Diffiniad:** Caniatáu unrhyw waith hawlfraint y gellir ei berfformio, ei chwarae neu ei ddangos mewn lleoliad addysgol.

**Mathau o waith:** Gellir perfformio gweithiau llenyddol, dramatig neu gerddorol. Gellir chwarae recordiadau sain a dangos ffilmiau.

**Enghreifftiau:** Dangos ffilm mewn darlithoedd, chwarae recordiadau cerddoriaeth mewn dosbarth, perfformio gweithiau dramatig mewn sefydliad addysgol (h.y. nid i gynulleidfa allanol).

**Sylwer:** Nid yw'r eithriad hon yn cynnwys dangos ffilmiau gan gymdeithasau ffilm.

0

1

2

R1

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# R

## Risg

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

E15

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# E

## Eithriadau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

R3

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# R

## Risg

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

R2

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# R

## Risg

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

3

4

5

## Trwyddedau Meddalwedd

**Defnydd a ganiateir:** Caniatáu i feddalwedd gael ei osod a'i ddefnyddio ar declynnau awdurdodedig gan ddefnyddwyr awdurdodedig.

**Repertoire:** Systemau gweithredu, pecynnau mathemateg ac ystadegau, algorithmau tu ôl i geir sy'n gyrru eu hunain.

**Sylwer:** Mae peth meddalwedd yn un ffynhonnell agored sy'n golygu y gellir rhannu'r cod, tra bod peth ohono'n 'berchenogol' sy'n golygu ei fod yn cael ei gloi a'i reoli.

R5

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# R

## Risg

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

R4

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# R

## Risg

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

L12

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# T

## Trwyddedau

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0

R6

COPYRIGHT
THE CARD GAME

# R

## Risg

© copyrightliteracy.org 2017 CC-BY-NC-SA 4.0